# Cofnodion Cyfarfod CCG 26.5.23

## Neuadd Cymuned Glantwymyn

**19:505: Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Glyn Jones Paul Hughes, Gareth Owen, Huw Williams, Dafydd Evans, Bedwyr Fychan, Iwan Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:506: Ymddiheuriadau**: Aeron Pughe, Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Dafydd Evans

**19:507: Datganiadau o ddiddordeb**: Bedwyr Fychan (mewn perthynas ag Osian Lewis Electricals)

**19:508: Cyflwyno a derbyn cofnodion Ebrill**

**19:508:1:** Nodwyd mai Osian Lewis osododd y cabinets diffibs nid Osian Jones. (19:497)

**19:508:2**: Nodwyd mai'r taliadau yn unig a gynigwyd gan Bedwyr Fychan ac a eiliwyd gan Iwan Pughe, yn hytrach na'r holl bwyntiau yn cynnwys cywiriadau i'r sieciau. (19:500)

**19:508:3**: Nodwyd y dylid cynnwys dyddiad agor y feddygfa newydd sef 28.4.23.(19:502)

Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir fel arall gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

**19:509:** Adroddiad y Clerc: Mae'r wal eglwys Llanwrin wedi cael ei hadfer gan Rhodri. Cafwyd canmolaeth fawr ar y gwaith gan y Cynghorwyr ac eraill a welodd y gwaith.

**19:510:** Cynllunio-: (1) Cyfeirnod: 23/0567/FUL Cynnig: Replacement of existing Industrial building Cyfeiriad y Safle: Existing Industrial Building, Abertwymyn, Glantwymyn, Machynlleth SY20 8LX Cynigiwyd cefnogi'r cais gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen

(2) Cyfeirnod: 23/0635/: Application to renovate village hall, Cwmllinau, Machynlleth, Powys Cytunwyd y dylid cefnogi'r cais ar bob cyfrif.

**19:511: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

Cafwyd cyngor Un Llais Cymru am faint y gall y Cyngor ei wario bob blwyddyn. Er gwybodaeth mae fformiwla ar gyfer uchafswm gwariant posib blynyddol. Eleni

caiff y Cyngor wario £9.93 y pen ar gyfer y 999 o etholwyr yn ei ardal sef cyfanswm o £9,920.00. (Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Nodwyd mai £11,500 oedd cyfanswm praesept 2023-2024, gyda £4,000 ar gael i'w gwario ar eitemau heblaw hanfodion ar gyfer cynnal y Cyngor

Trefn gwneud taliadau - Y drefn gywir ar gyfer gwneud taliadau nad ydynt yn rhai arferol yw pasio'r cynnig mewn un cyfarfod a thalu yn y cyfarfod olynol.

Cyfrifwyr - Gan fod Mr. Geraint Cartwright wedi ymddeol o gwmni Davies, Lewis a Baker, ceisir dod o hyd iddo a gofyn a ydyw'n dal i weithio ar ei liwt ei hun. Fel arall mae aelod arall o gwmni Davies, Lewis Baker yn fodlon gwneud y cyfrifon er nad oes profiad penodol ganddynt yn y maes. Diolch i Mr Mark Baker am y sgwrs a'r wybodaeth am wasanaeth posib.

Nodwyd bydd Whittingham Riddell yn codi ffioedd yn gyffredinol o Fehefin ymlaen i £31.50 y mis gyda chostau ar gyfer post HMRC submission re-run yn £10.50

Bydd angen trosglwyddo £6,000 i gyfrif cadw'r Cyngor o gyfrif y Gwynt yn dilyn camgymeriad clerigol.

- Cyflog y Clerc Mawrth mis 1 £342.80
- HMRC taliad ychwanegol £108.27
- Osian Lewis Electrical £360.00 Gosod diffibs.

  Cynigiwyd y dylid talu'r uchod gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen
- Pont Cwmlline Yn dilyn ymholiadau a fyddai hawl gan y Cyngor dalu am hon, penderfynwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth Gwynt yn talu yn unol â'r hyn y cytunwyd arno'n flaenorol.
- Cais am arian gan Maureen Fairclough, Dovey Valley Hotel - £125 tuag at fatri diffib. Cafwyd cynnig i gyfrannu gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams. Telir y swm hwn yn y cyfarfod nesaf.

**Gohebiaeth**: Derbyniwyd gwybodaeth am ystafelloedd yn y feddygfa newydd y gellir eu llogi gan fudiadau cymunedol.

**19:512: Adroddiadau'r Cynghorwyr Dim**

**19:513: Materion Ffyrdd a Phontydd:**

- Llwybr troed Cemaes – giât wedi torri. Diolch i Richard Jones am ei gymorth. Mae angen dod o hyd i berchennog y tir o gwmpas y giatiau sy wedi torri gan mai cyfrifoldeb y tirfeddianwr yw. Ceir cyfraniad tuag at y costau gan Bowys.
- Trwnc trafferthus ochr uchaf i Brynhaul, Cwmlline tua 100 medr o'r Swyddfa Bost yn berygl i'r cyhoedd.

**19:514: Unrhyw Fater Arall:**

**Diffibriliwr Llanwrin** Mynegwyd pryderon mai ar y tu allan i'r hen focs BT y gosodwyd y cabinet. Tybiwyd y byddai'n hwylusach ac yn well rhag y tywydd ei osod y tu fewn. Cysylltir â William Owen ac Osian Lewis i drafod.

Mae mainc Cwmlline yn ei le yn ddiogel gan Deryck Lewis. Symudwyd y bin baw cŵn. Rhoddir gwybod i Gyngor Sir Powys. Bydd Deryck Lewis yn trafod gyda Rhodri Wigley sut i ddiogelu mainc Cemaes. Diolchodd Iwan Jones am fainc Darowen. Diolch i Rhodri Wigley a Deryck Lewis am dderbyn, cludo a gosod y meinciau.

Gofynnwyd i'r Cyngor ysgrifennu llythyr i fynegi ei gefnogaeth i'r cynllun datblygu hwb cymunedol yn Narowen. Cynigiwyd y dylid gwneud gan Bedwyr Fychan ac fe'i heliwyd gan Huw Williams.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau sef cyfarfod arbennig 8.6.23 i drafod cyfraniad ariannol Traed Bêch Twymyn, gan nad oedd yr eitem wedi cael ei chynnwys ar yr agenda yn ôl y bwriad.

**Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 26.5.23**

- Cafwyd ymweliad gan Mr.Simon Ling, rheolwr asedau EDF sy'n gyfrifol am Fferm Wynt Cemaes ers blwyddyn. Derbyniwyd cynnig EDF i gynyddu'r cyfraniad blynyddol o £4,000 i £8,000 gydag indecs gyswllt. Bydd cytundeb swyddogol rhwng EDF a'r ymddiriedolaeth i ffurffioli'r trefniant. Anfonir drafft i'r Ymddiriedolwyr. Cynigiodd Mr Simon Ling ymweld eto i drafod pe byddai eisiau. Penderfynwyd gofyn am un cyfraniad blynyddol at y dyfodol. Diolchwyd i Mr.Ling am ei gyfraniad.
- Cafwyd llythyr i ddiolch am y cyfraniad o £500.00 tuag at adnewyddu wal mynwent Capel Sama gan Mr.Stephen Tudor.

- Cafwyd cais am £980.00 i dalu am ddau fws i deithiau addysgol Ysgol Glantwymyn. Cynigiwyd y dylid ei dalu gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen. Datganodd Gareth Wyn Jones a Bedwyr Fychan ddiddordeb yn y mater hwn.
- Pont Cwmlline – Cyfrannwyd £1335 at gostau adnewyddu'r bont. £3335.00 + TAW oedd cyfanswm a derbyniwyd gan Brosiect Dolau Dyfi gyfraniad o £2000). Cynigiwyd hyn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones